



POLISI A GWEITHDREFN Y GYMRAEG

POLISI

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog ac mae 2wish wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyfathrebu â phobl Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg lle bynnag y bo modd.

Mae'r Gymraeg yn rhan gref o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac felly dylai fod wrth wraidd ein gwaith.

Mae rhan bwysig o'n gwaith yng Nghymru yn wynebu'r cyhoedd wrth i ni ymgysylltu â phobl Cymru. Rydym yn cefnogi, yn codi ymwybyddiaeth, yn mynychu digwyddiadau ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl mewn cymunedau ledled y wlad. Felly mae'n bwysig ein bod yn gallu cyfathrebu â phobl Cymru yn eu dewisiaith lle bynnag y bo modd.

GWEITHDREFN

Cyfathrebu ar y Ffôn

Bydd 2wish yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran yr elusen yn gwybod pa aelodau o'r tîm staff / gwirfoddolwyr sy'n gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg. Os bydd galwr yn dymuno parhau â'r sgwrs yn Gymraeg, dylai'r staff eu cyfeirio at unrhyw staff / gwirfoddolwyr sy'n siarad Gymraeg sydd ar gael.

Os nad oes aelodau staff / gwirfoddolwyr sy'n siarad Gymraeg ar gael, bydd gan y galwr yr opsiwn o gael galwad yn ôl gan aelod o staff / gwirfoddolwr sy'n siarad Gymraeg. Dylid blaenoriaethu'r alwad yn ôl, gan y dylid trin ceisiadau Gymraeg yn gydradd. Mae'n bwysig bod y galwr yn cael yr opsiwn o barhau â'r sgwrs yn Saesneg bob tro hefyd a'i fod yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariad.

Gohebiaeth Ysgrifenedig Allanol

Llofnodion E-bost

Bydd llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa'r tîm yn ddwyieithog.

Os yw aelod o staff yn siarad Gymraeg, bydd y llofnod e-bost hefyd yn cynnwys logo cydnabyddedig Iaith Gwaith a ddarperir gan Gomisiynydd y Gymraeg.



E-byst a Llythyrau

Os bydd 2wish yn cael e-bost neu lythyr Cymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Os nad oes aelod Cymraeg o'r tîm ar gael i ymdrin â'r cais ar unwaith, bydd y tîm yn anfon cydnabyddiaeth dros dro yn Gymraeg yn nodi y caiff ymateb Cymraeg ei anfon o fewn cyfnod penodol. Rhaid blaenoriaethu'r ymateb hwn gan fod rhaid i ni drin gohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn gydradd. Mae copi o'r datganiad dros dro ar gael yn Atodiad A.

Deunyddiau Cyhoeddus

Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddus sydd wedi'u cynllunio, gan gynnwys datganiadau i'r wasg, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau a phapurau ac unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig eraill a gynhrychir gan 2wish i'w defnyddio ac er gwybodaeth i'r cyhoedd, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

Os bydd angen, bydd 2wish yn defnyddio cyfieithwyr a golygyddion i helpu gyda'r gwaith hwn. Mae angen ystyried hyn yn yr amserlenni a'r cyllidebau pan fydd prosiectau'n cael eu cynllunio.

Deunyddiau Marchnata a Hyrwyddo

Bydd yr holl ddeunyddiau sydd wedi'u cynllunio i'w rhannu gyda'r cyhoedd yng Nghymru am waith sy'n cael ei wneud gan 2wish, boed hynny ar-lein neu mewn digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, yn ddwyieithog.

Cynnwys Ar-lein

Gwefan

Mae gwybodaeth am wasanaethau 2wish yng Nghymru ar gael drwy ein gwefan. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol

Dylai negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u creu gan 2wish gael eu rhannu naill ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd lle bynnag y bo modd. Os na all aelodau staff rannu negeseuon o gyfarfodydd, digwyddiadau ac ati yn y ddwy iaith, bydd neges ddiweddarach yn cael ei rhyddhau os yw hynny'n bosib.

Dylid cynllunio a chyfieithu cynnwys ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y staff sy'n postio ar y cyfryngau cymdeithasol yw sicrhau bod cyfieithu priodol yn cael ei drefnu ymlaen llaw, gan ddefnyddio arbenigedd staff / gwirfoddolwyr Cymraeg neu ein rhestr gymeradwy o gyfieithwyr.

Fideos a Phodlediadau

Mae 2wish yn cynhyrchu fideos ac yn bwriadu cynhyrchu podlediad i rannu straeon am y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw ac i dynnu sylw at ein gwasanaethau. Os yw'r cyfwelai yn siarad Cymraeg ac os yw'r cynnwys ar gael / yn bosib yn y ddwy iaith, byddwn yn sicrhau bod gennym fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r fideo / podlediad.

Dylid trafod hyn ymlaen llaw a gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cwestiynau ac ati ar gael yn Gymraeg. Os mai dim ond yn Saesneg mae'r eitem ar gael, byddwn yn ychwanegu is-deitlau Cymraeg.

Digwyddiadau Cyhoeddus

Os bydd 2wish yn trefnu digwyddiadau sy'n wynebu'r cyhoedd neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus i drafod neu godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo neu farchnata dwyieithog.

Cyfrifoldeb yr aelod staff sy'n mynychu'r digwyddiad yw cynllunio a thrafod cyn gynted â phosib i sicrhau bod adnoddau a chyllidebau i wneud hyn.

Os bydd y digwyddiad yn un dwyieithog neu uniaith Gymraeg, dylai'r staff drafod hyn gyda'u rheolwr cyn gynted â phosib, er mwyn sicrhau y gallwn gyfathrebu a chyflwyno ein gwaith yn y ddwy iaith i fodloni gofynion y digwyddiad a'r trefnwyr.

Recriwtio Staff

Mae 2wish yn cydnabod bod y Gymraeg yn sgil bwysig i'n helpu i gyflawni ein gwaith a chyfleu ein negeseuon yng Nghymru, ac rydym yn cydnabod yr angen am ragor o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn yr elusen. O ganlyniad, byddwn yn parhau i hysbysebu ein swyddi yn ddwyieithog a byddwn yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol / yn hanfodol yn dibynnu ar y swydd dan sylw.

Ategir y gwaith hwn drwy fynd ati i chwilio am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i gefnogi ein gwaith yng Nghymru.

Hyfforddiant a Datblygiad

Rhoddir cymorth a hyfforddiant i ddefnyddio'r Gymraeg ar y ffôn ac mewn cyfarchion.

Os bydd staff yn dymuno ehangu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu swydd, bydd rheolwyr yn trafod yr anghenion hyfforddi a chymorth.

Atodiad A

Ymateb dros dro ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig Gymraeg pan nad oes aelod Cymraeg o'r tîm ar gael i ymateb:

Diolch am eich e-bost/llythyr diweddar. Fel elusen Cymru gyfan, pan fyddwn yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, rydym wedi ymrwmo i ymateb yn yr un iaith. Yn anffodus, nid yw ein staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar hyn o bryd i ymateb ar unwaith, ond byddwn yn ymateb o fewn saith diwrnod.

Saesneg: Thank you for your recent email/letter. As an all-Wales charity, whenever we receive correspondence in Welsh, we are committed to responding in the same language. Unfortunately, our Welsh speaking staff are not available to immediately respond to you, but we will reply within seven days.